

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>26 Hydref 2017</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>Diweddariad i ddata (amrywiaeth)</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor yn unol â'r cais yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Derbyn sylwadau'r Pwyllgor</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd</b>

1. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr etholiadau, ar yr 11eg o Orffennaf, 2017, a chyflwynwyd data fel gwybodaeth cefndirol i aelodau'r Pwyllgor fel cyd-destun i rôl y Pwyllgor. Cafwyd cryn drafodaethau ar y diwrnod, a gofynnwyd am rhywfaint o wybodaeth a data ychwanegol i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.
2. Gofynnodd aelodau'r pwyllgor am wybodaeth ynghylch niferoedd oedd wedi sefyll yn etholiad 2012 o gymharu â 2017 ynghyd â gwybodaeth am y nifer merched oedd wedi sefyll ar yr achlysuron hyn. Gweler y data a'r dadansoddiad isod.

	<b>2012</b>	<b>2017</b>
Merched wnaeth sefyll mewn etholiad	35	39
Seddi di-wrthwynebiad	19	21

		Arfon	Dwyfor	Meirion	Cyfanswm
2012	merched wnaeth sefyll etholiad (fesul ardal)	17	9	9	35
	seddi (fesul ardal)	34	20	21	75
	Seddi di-wrthwynebiad (fesul ardal)	7	3	9	19
	Seddi di-wrthwynebiad fel canran o'r holl seddi (fesul ardal)	21%	15%	43%	25%
2017	merched wnaeth sefyll etholiad (fesul ardal)	13	14	12	39
	seddi (fesul ardal)	34	20	21	75
	Seddi di-wrthwynebiad (fesul ardal)	7	5	9	21
	Seddi di-wrthwynebiad fel canran o'r holl seddi (fesul ardal)	21%	25%	43%	28%

- Gwelir fod niferoedd y merched a wnaeth sefyll yn yr etholiadau wedi cynyddu o bedair rhwng 2012 a 2017
- Fesul ardal, mae'r niferoedd o ferched a wnaeth sefyll wedi lleihau yn ardal Arfon, ond wedi cynyddu fymryn yn ardaloedd Dwyfor a Meirionydd.

- Gwelwyd cynnydd bychan yn y niferoedd o seddi di-wrthwynebiad yn etholiadau Cyngor Gwynedd rhwng 2012 a 2017. I atgoffa'r aelodau, noder bydd y niferoedd seddi yn debygol iawn o leihau erbyn etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022 o ganlyniad i waith y Comisiwn Ffiniau.
3. Yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd nifer o'r rhesymau posib pam fod niferoedd y merched sy'n dewis sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol yn parhau i fod yn isel. Mae adroddiad terfynol Comisiwn Llywodraeth Leol gan Gymdeithas Fawcett (gyhoeddwyd Gorffennaf 2017) wedi edrych ar nifer o wahanol ffactorau yn ymwneud ag amrywiaeth. Mae'n adroddiad beirniadol sy'n nodi fod graddfa newid i'w weld yn arbennig o araf, ac na fydd cysondeb i gydraddoldeb rhwng dynion a merched o fewn llywodraeth leol hyd 2065 os yw'n parhau ar yr un graddfa a nawr.
  4. Yn ychwanegol, ar ddiwedd tymor y cyngor diwethaf, gwnaeth yr Uned Ddata Llywodraeth Leol gynnal arolwg o aelodau etholedig oedd yn dewis peidio sefyll eto yn etholiadau 2017, a'r aelodau hynny na fu'n llwyddiannus yn ail ennill eu seddi yn dilyn yr etholiad. Pwrpas yr arolwg oedd ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth i'r gyrwyr a'r rhwystrau ar gyfer bod yn aelodau etholedig.
  5. Mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiad yn ôl gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ar yr hyn a adroddwyd gan gyn-aelodau Gwynedd. Gan mai dim ond nifer fychan o gyn-aelodau a wnaeth ateb yr holiadur, nid ydym yn gallu rhannu'r negeseuon o'r ymatebion gan y byddai'n bosib adnabod yr unigolion. Fodd bynnag, dylid nodi fod yr ymatebion wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol am y gefnogaeth a roddwyd i'r aelodau a'r ysbryd yr oedd aelodau o wahanol grwpiau yn cyd-weithio o fewn Cyngor Gwynedd.
  6. Mae dadansoddiad o'r prif wersi ar gyfer Cymru gyfan wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, ond mae'r prif negeseuon sydd wedi eu rhannu ar ffurf drafft ar hyn o bryd fel a ganlyn:
    - Mwyafrif llethol o aelodau wedi adrodd profiad cadarnhaol ar y cyfan o'u rôl fel cynghorwyr, gan ddisgrifio eu bod yn teimlo fel pe baent wedi gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r datblygiad a roddodd eu hawdurdod lleol iddynt.
    - Rhai aelodau wedi sefyll i lawr oherwydd anfodddhad neu ddadrithiad, gyda'r mwyafrif yn sefyll i lawr er mwyn ymddeol neu oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau personol.
    - Llawer o aelodau yn nodi cryn amser ac ymrwymiad personol i'r rôl, a fu'n her arbennig i'r rhai a oedd mewn cyflogaeth.
    - Y mwyafrif o aelodau wedi disgrifio peth rhwystredigaeth gyda'r rôl ac yn adnabod lle gallai gwelliannau gael eu gwneud yn lefel y cymorth a/neu sut mae cynghorau neu grwpiau gwleidyddol yn gweithredu.
    - Rhai aelodau wedi nodi profiadau arbennig o negyddol o rai agweddau ar y rôl.
    - Cryn dipyn o brofiad wedi'i golli ar draws Cymru yn gyffredinol gan fod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi gwasanaethu am o leiaf dau dymor cyn sefyll i lawr.
    - Yr arolwg yn awgrymu fod cyfle efallai i newid proffil oedran siambrau cyngor, sydd yn hanesyddol wedi cael eu dominyddu gan bobl sydd wedi ymddeol dros 60 mlwydd oed.

Awgrymir fod adroddiad pellach yn cynnwys y wybodaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor.

**7. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar yr uchod.**